

MSc mewn Rheoli Iechyd a Gofal Uwch - Ysgoloriaethau i Dalu'r Ffioedd Llawn

CYMHWYSEDD, PROSES DDYRANNU, AMODAU A THELERAU A FFURFLEN GAIS PRIFYSGOL ABERTAW

Academiau Dysgu Dwys, Polisi Dyrannu Ysgoloriaethau sy'n Talu'r Ffioedd Llawn

1. DIBEN Y DYFARNIADAU

Mae Llywodraeth Cymru am gefnogi dysgwyr proffesiynol yn y GIG, ym maes Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector yng Nghymru i ymgymryd ag addysg a datblygiad personol mewn meysydd polisi allweddol, ac mae wedi sefydlu rhaglen Academi at y diben hwn. Mae cyllid grant gan Lywodraeth Cymru yn galluogi pob Academi i gynnig nifer o ysgoloriaethau hael i ymgeiswyr cymwys.

Mae ysgoloriaethau ar gyfer y ffioedd llawn ar gael ar lwybrau'r MSc mewn Rheoli Iechyd a Gofal Uwch (sy'n Seiliedig ar Werth) a'r MSc mewn Rheoli Iechyd a Gofal Uwch (Arloesi a Thrawsnewid). Mae nifer cyfyngedig o Ysgoloriaethau ar gael, a chaiff y rhain eu dyrannu yn unol â'r meini prawf isod.

Os hoffech drafod eich cais am le a ariennir, cysylltwch â Chyfarwyddwr y Rhaglen, Dr Roderick Thomas:
Roderick.A.Thomas@swansea.ac.uk

2. Y BROSES YMGEISIO

- i. Mae ymgeiswyr yn dilyn proses safonol Prifysgol Abertawe i ymgeisio am MSc.
- ii. Gall ymgeiswyr gyflwyno cais am ysgoloriaeth ffioedd llawn ochr yn ochr â'u cais am le ar y rhaglen, ond ni chaiff ceisiadau am ysgoloriaethau eu hystyried nes y penderfynir eu bod yn gymwys am le ar y rhaglen.
- iii. Mae angen i ymgeiswyr lenwi'r ffurflen gais hon am ysgoloriaeth, gan gynnwys y datganiad o gefnogaeth gan eu cyflogwr (rhan 3 y ffurflen hon).
- iv. Penderfynir ar ddyfarnu Ysgoloriaethau gan y Panel Dyfarnu Ysgoloriaethau, a rhoir gwybod i ymgeiswyr. Caiff y rhai sy'n aflwyddiannus yn eu ceisiadau am ddyfarniadau ysgoloriaethau gymryd lle fel dysgwyr sy'n hunan-ariannu os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
- v. Rhaid cyflwyno ceisiadau am Ysgoloriaethau erbyn **17 Mawrth 2022 am 4pm**. Rhoir gwybod i ymgeiswyr am benderfyniad y panel erbyn **11 Ebrill 2022**.
- vi. Ni thelir cyllid yr ysgoloriaeth i'r ymgeiswyr, ond wrth gofrestru byddant yn derbyn hysbysiad bod eu ffioedd wedi'u talu.

3. Y BROSES DYFARNU YSGOLORIAETH

- i. Dyfernir ysgoloriaethau gan y Panel Dyfarnu Ysgoloriaethau. Mae'r panel yn cynnwys Cyfarwyddwr y Rhaglen, arweinwyr Llwybrau ac aelod perthynol o Gyfadran arall yn y Brifysgol.
- ii. Dyfernir ysgoloriaethau ar gyfer ffioedd llawn ar sail tystiolaeth o'r budd mwyaf i'r ymgeisydd, i'w gyflogwr a'i gleifion, defnyddwyr y gwasanaeth neu'r gymuned y mae'n ei chefnogi, yn ogystal â chyfrannu at ddeilliannau Cymru Iachach¹. Bydd y penderfyniad yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynir yn y ffurflen gais hon am ysgoloriaeth gan yr ymgeisydd a'r gefnogaeth gan ei gyflogwr. Os na ddyfernir yr holl ysgoloriaethau, bydd ysgoloriaethau na chawsant eu dyrannu yn cael eu dwyn ymlaen ar gyfer cyrsiau yn y dyfodol.
- iii. Ym mhob cylch cyllido, bydd y panel yn cytuno ar union ddyraniad yr ysgoloriaethau yn unol â swm y cyllid sydd ar gael ac unrhyw leodd na chawsant eu dyrannu sydd wedi eu dwyn ymlaen o garfannau blaenorol. Dyrennir ysgoloriaethau i gyfleu bwriad i gefnogi dysgwyr o'r grwpiau canlynol a dargedir:
- GIG Cymru
Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol yng Nghymru
Sefydliadau Gofal Cymdeithasol yng Nghymru
Sefydliadau Trydydd Sector yng Nghymru.
- iv. Caiff ceisiadau eu sgorio fel y nodir yn y ffurflen gais yn Atodiad 1 isod, rhoir safle iddynt yn eu sector, a dyrennir ysgoloriaethau yn unol â'r dosbarthiad uchod ac ansawdd y ceisiadau a dderbynnir.
- v. Dylai ymgeiswyr nad ydynt yn fodlon â phenderfyniad y Panel Dyfarnu Ysgoloriaethau gysylltu â IHSCAcademy@swansea.ac.uk yn y lle cyntaf.
- vi. Darperir adroddiad i Fwrdd Cyflawni a Sicrwydd yr Academi.

4. CYMHWYSTRA

- i. Mae angen i ymgeiswyr fodloni'r gofynion mynediad ar gyfer lle ar y rhaglen MSc mewn Rheoli Iechyd a Gofal Uwch.
- ii. Rhaid bod ymgeiswyr yn:
- Gweithio gyda/i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, ym maes gofal iechyd, gofal cymdeithasol neu'r Sector Gwirfoddol yng Nghymru ar hyn o bryd, a
 - Rhaid bod ganddynt gadarnhad o gefnogaeth a lofnodwyd gan eu cyflogwyr gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir gan y Brifysgol
 - yn ddinesydd o'r DU neu rhaid bod ganddynt 'statws preswlydd sefydlog' (mae hynny'n golygu nad oes cyfyngiadau o ran pa mor hir y caiff ymgeiswyr aros yn y DU); ac yn
 - Byw yn y DU a'r Ynysoedd am dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs.
- iii. Rhaid bod ymgeiswyr yn ymgeisio am lwybr yr MSc mewn Rheoli Iechyd a Gofal Uwch (Seiliedig ar Werth), neu (Arloesi a Thrawsnewid) sy'n dechrau yn y flwyddyn academaidd 2022-23.
- iv. Mae ysgoloriaethau ffioedd ar gael i ymgeiswyr sy'n ymgeisio am raglenni astudio amser llawn a rhan-amser.

¹ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/in-brief-a-healthier-wales-our-plan-for-health-and-social-care.pdf>

v. Nid yw'r Ysgoloriaethau'n destun prawf modd, h.y. ni fyddant yn dibynnu ar incwm teulu ymgeisydd.

5. AMODAU A THELERAU:

- i. Mae ysgoloriaeth ffioedd llawn yn talu ffioedd llawn y rhaglen ar gyfer dysgwyr rhan-amser ac amser llawn.
- ii. Dylid atodi'r ffurflen ysgoloriaeth hon i'ch cais am y cwrs MSc.
- iii. Bydd yr Ysgoloriaeth yn cael ei gosod yn erbyn cost y Ffioedd Dysgu ac nid oes modd i ymgeiswyr dderbyn yr ysgoloriaeth yn uniongyrchol.
- iv. Ni ellir gohirio ysgoloriaethau ac mae'n rhaid i ymgeiswyr dderbyn yr ysgoloriaeth erbyn y dyddiad a nodwyd yn y llythyr dyfarnu.
- v. Bydd ysgoloriaeth sy'n cael ei chynnig ond yn cael ei gwrthod cyn cofrestru yn cael ei chynnig i ymgeisydd ar y rhestr wrth gefn. Rhwir gwybod i ymgeiswyr cyn gynted â phosib, ond dylai'r rhai ar y rhestr wrth gefn chwilio am opsiynau cyllid eraill oherwydd nad oes sicrwydd y bydd ysgoloriaeth yn dod ar gael.
- vi. Anogir deiliaid Ysgoloriaeth i gymryd rhan yn rhai o weithgareddau marchnata a recriwtio'r Brifysgol.
- vii. Un o ofynion yr Ysgoloriaeth yw eich bod yn cwblhau² eich astudiaethau.

Os yw ymgeisydd yn tynnu'n ôl o'i radd Meistr Ôl-raddedig ar ôl i ysgoloriaeth gael ei dyfarnu iddo, caiff yr ysgoloriaeth lawn ei chanslo a gallai'r ymgeisydd fod yn atebol* am ad-dalu'n llawn unrhyw swm o'r ysgoloriaeth sydd eisoes wedi cael ei osod yn erbyn ffioedd dysgu. **Efallai na fydd ymgeiswyr sy'n tynnu'n ôl oherwydd rhesymau personol cryf (er enghraifft, iechyd, beichiogrwydd) yn atebol i ad-dalu'r ysgoloriaeth yn llawn.*

- viii. Os ystyrir bod angen i ddeiliad ysgoloriaeth ohirio ei astudiaethau, caiff yr ysgoloriaeth ei haddasu ar sail pro-rata hyd at ddechrau'r absenoldeb, a chaiff gweddill yr ysgoloriaeth ei gadw yng nghyfrif y Brifysgol a'i ddwyn ymlaen at flwyddyn ail-ddechrau'r astudiaethau, yn amodol ar delerau ac amodau y Brifysgol.

6. Y RHEOLIAD CYFFREDINOL AR DDIOGELU DATA (GDPR)

- i. Os ydych yn cyflwyno cais am ysgoloriaeth i astudio ym Mhrifysgol Abertawe, bydd yn ofynnol i Brifysgol Abertawe gasglu, storio, defnyddio a phrosesu gwybodaeth amdano chi, at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r broses ymgeisio ac am resymau y tybir eu bod yn angenrheidiol er mwyn cymryd camau cyn ymrwymo i gytundeb dan gontract gyda'r Brifysgol.

7. CYFLE CYFARTAL

- i. Mae Prifysgol Abertawe yn sefydliad cyfle cyfartal. Felly, byddwn yn rhoi proses ymgeisio dienw ar waith, lle na fydd y panel yn gweld manylion personol.

²Yn y cyd-destun hwn, mae cwblhau yn golygu mynychu'r holl gwrs a chwblhau'r asesiadau gofynnol.

ii. Byddwn yn monitro cyfle cyfartal yn unol â pholisi'r Brifysgol ar gyfer cyfle cyfartal.

ATODIAD 1: FFURFLEN GAIS

Cyfle Cyfartal

Mae Prifysgol Abertawe yn sefydliad cyfle cyfartal. Felly, byddwn yn rhoi proses ymgeisio dienw ar waith, lle nad ystyrir manylion personol wrth ddyfarnu ysgoloriaethau. Felly, gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys gwybodaeth bersonol adnabyddadwy yn y manau a nodir ar y ffurflen yn unig. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth cyfle cyfartal a gesglir drwy'r broses ymgeisio ar gyfer y cwrs at ddibenion monitro cyfle cyfartal.

Rhan 1: Gwybodaeth Bersonol Adnabyddadwy. [Mae'r adran hon at ddibenion gweinyddol ac ni fydd ar gael i'r panel dyfarnu]

ENW:	
CYFEIRIAD E-BOST:	
SECTOR:	Iechyd/Gofal Cymdeithasol/Trydydd Sector (Dilëwch fel sy'n briodol)
DYDDIAD:	

Atodwch eich ffurflen gais am ysgoloriaeth wedi'i chwblhau i'ch cais ar-lein am le ar y rhaglen.

Rhan 2: Sut bydd y cwrs o fudd i chi, eich sefydliad a'r cleifion / defnyddwyr gwasanaeth yr ydych yn gweithio gyda nhw. (Osgowch ddefnyddio gwybodaeth bersonol adnabyddadwy os bydd yn bosibl)

Dywedwch wrthym y sector, y cyflogwr a'r lleoliad yr ydych yn gweithio ynddo, a sut mae eich swydd bresennol yn cyd-fynd â deilliannau'r cwrs hwn (Uchafswm o 300 gair - 5 pwynt i'w dyfarnu)

Sut bydd eich dysgu'n cyfrannu at gyflawni deilliannau Cymru Iachach? (Uchafswm o 300 gair - 5 pwynt i'w dyfarnu)

Pa effaith fydd y cwrs hwn yn ei chael ar eich sefydliad a'ch defnyddwyr gwasanaeth? (uchafswm o 300 o eiriau? - 5 pwynt i'w dyfarnu)

RHAN 3: DATGANIAD GAN GYFLOGWR

I'w gwblhau gan reolwr llinell yr ymgeisydd neu uwch-reolwr perthnasol

Trafodwch sut bydd eich sefydliad yn elwa o gyfranogiad y dysgwr yn y rhaglen a'r prosiect yn y gweithle, a pha effaith yr ydych yn disgwyl iddo ei chael. (uchafswm o 500 o eiriau? - 5 pwynt i'w dyfarnu)

Cadarnhewch y cefnogir yr ymgeisydd, os bydd yn llwyddiannus, i gael amser digonol wedi'i ddiogelu er mwyn cwblhau'r rhaglen a'r prosiect ac ymgymryd â'r dysgu hunangyfeiriedig sy'n ofynnol.

Enw:

Teitl Swydd:

Dyddiad:

Sefydliad:

Llofnodwyd gan _____

Ar ôl llenwi'r ffurflen hon, dylech ei hatodi i'ch cais ar gyfer eich cwrs.

[MSc Rheoli Iechyd a Gofal Uwch \(Arloesi a Thrawsnewid\).](#)

